Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Crown Building
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Ein Cyf / Our Ref: CAS-02446-R8X8W2

Ffôn / Tel: 03000 25 3328

Dyddiad / Date: 09/04/2024

E-Bost / E-Mail: PEDW.infrastructure@gov.wales

Ross Irvine o / of RPS
(Asiant yr Ymgeiswyr / Agents for the Applicant – CENIN Renewables Ltd)

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Caerffili
(Awdurdod Cynllunio Lleol)

Caerphilly County Borough Council
(Local Planning Authority)

(gan E-Bost / via E-Mail)

Annwyl Syr / Madam | Dear Sir / Madam

**** English Text follows the Welsh text, see page 5 onwards****

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ('Deddf 1990') Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) ('y Rheoliadau DAC')**
**Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) ('y Gorchymyn Gweithdrefn DAC')**

**Cais gan:** CENIN Renewables Ltd
**Cyfeiriad y safle:** Tir yn Fferm Cil-Lonydd, i'r dwyrain o Pantside ac i'r de o Hafodyrynys.

Cyflwynwyd hysbysiad o gais arfaethedig ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC).

Ar ôl asesu'r dogfennau a gyflwynwyd, gallaf gadarnhau'r canlynol:

− bod y cynnig o fewn y meini prawf i'w ystyried fel cais DNS; −
darparwyd y dogfennau a fynnir gan y Rheoliadau uchod; ac −
mae'r ffi berthnasol wedi'i thalu yn llawn.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

Dylid ymdrin â'r llythyr hwn felly fel **hysbysiad swyddogol o dderbyn yr hysbysiad, o dan Erthygl 6 Gorchymyn Gweithdrefn DNS 2016.**

Mae'r hysbysiad derbyn hwn yn ddilys am 12 mis yn unig o ddyddiad y llythyr hwn; os na chaiff y cais ei gyflwyno'n ffurfiol erbyn y dyddiad hwnnw, rhaid cyflwyno hysbysiad o'r datblygiad arfaethedig o'r newydd, yn unol ag Erthygl 5 Gorchymyn Gweithdrefn DNS 2016.

Dylai'r holl bartïon ddarllen y canlynol yn ofalus i sicrhau eu bod yn deall y broses a nodi unrhyw derfynau amser perthnasol.

## 1. <u>Yr Ymgeisydd</u>

Mae nawr yn ofynnol i'r Ymgeisydd roi cyhoeddusrwydd i'r cais cyn ei gyflwyno'n ffurfiol. Yn unol ag Erthygl 8 Gorchymyn Gweithdrefn DNS 2016, rhaid i'r Ymgeisydd rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig nawr drwy wneud y canlynol—

*(a) rhoi hysbysiad gofynnol -*
*(i) drwy ei arddangos ar y safle, mewn o leiaf un man ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef, am gyfnod o ddim llai na 42 diwrnod;*
*(ii) drwy ysgrifennu at berchennog neu feddiannydd unrhyw dir sy'n cyd-ffinio â'r tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef; a*
*(iii) thrwy gyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth y lleolir ynddi'r tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef; a*
*(b) chyhoeddi'r wybodaeth ganlynol ar wefan a gynhelir gan yr ymgeisydd, am gyfnod o ddim llai na 42 diwrnod sy'n dechrau gyda phob un o'r diwrnodau y rhoddir pob un o'r hysbysiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) neu erthygl 9(2) –*
*(i) y ffurflen gais ddrafft a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 12(1)(a) (neu ffurflen sydd, o ran sylwedd, yn cael yr un effaith), gan gynnwys y manylion a bennir neu y cyfeirir atynt yn y ffurflen;*
*(ii) cynllun sy'n galluogi adnabod y tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef;*
*(iii) unrhyw gynlluniau, lluniadau a gwybodaeth arall sy'n angenrheidiol er mwyn disgrifio'r datblygiad sy'n destun y cais arfaethedig;*
*(iv) copi o'r hysbysiad a fynnir gan erthygl 6 ac nad yw wedi darfod o dan baragraff (3) o'r erthygl honno;*
*(v) y datganiad dylunio a mynediad a fynnir gan erthygl 14;*
*(vi) yn ddarostyngedig i erthygl 12(3), y manylion neu'r dystiolaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan adran 62(3) o Ddeddf 1990 (ceisiadau am ganiatâd cynllunio);*
*(vii) pan fo'n gymwys, datganiad y cyfeirir ato fel y datganiad amgylcheddol ar gyfer y datblygiad arfaethedig; a*
*(viii) datganiad ysgrifenedig ynghylch unrhyw gydsyniad eilaidd sy'n gysylltiedig â'r cais arfaethedig ac y tybia'r ymgeisydd fod penderfyniad ar y cydsyniad hwnnw i gael ei*

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

*wneud, neu y dylid ei wneud, gan Weinidogion Cymru, ynghyd â'r ffurflen gais ddrafft a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â chydsyniadau o'r fath.*

Mae hefyd yn ofynnol i'r Ymgeisydd ymgymryd ag ymgynghoriad, yn unol ag Erthygl 9 Gorchymyn Gweithdrefn DNS 2016:

*(1) Mae'r personau neu ddisgrifiadau o bersonau canlynol wedi eu pennu at ddibenion adran 61Z(4) o Ddeddf 1990 – (a) unrhyw ymgynghorai cymunedol; (b) unrhyw ymgynghorai arbenigol; ac (c) unrhyw berson perthnasol.*
*(2) Lle bo'n ofynnol bod ymgeisydd yn ymgynghori ag ymgynghorai cymunedol neu berson perthnasol, rhaid i'r ymgeisydd roi i'r ymgynghorai cymunedol neu'r person perthnasol hysbysiad gofynnol ysgrifenedig o'r cais arfaethedig.*
*(3) Lle bo'n ofynnol bod ymgeisydd yn ymgynghori ag ymgynghorai arbenigol, rhaid i'r ymgeisydd roi i'r ymgynghorai arbenigol hysbysiad gofynnol ysgrifenedig o'r cais arfaethedig ac amgáu pob un o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn erthygl 8(1)(b) neu ddarparu dolen i wefan lle y gellir gweld y dogfennau hynny.*
*(4) Rhaid i'r ymgeisydd fod wedi cydymffurfio â pharagraffau (2) a (3) ac wedi rhoi amser i'r ymgynghorai arbenigol ymateb yn unol ag erthygl 10(1) cyn cyflwyno cais.*

Mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd gyflwyno adroddiad ymgynghori cyn-ymgeisio fel rhan o gyflwyno'r cais, yn unol ag Erthygl 11 y Gorchymyn Gweithdrefn DNS. Rhaid i PCAC fod yn fodlon bod gofynion Gorchymyn Gweithdrefn DNS 2016 wedi'u bodloni, a bod ymatebion wedi helpu i lywio'r cynllun terfynol, cyn y gellir derbyn cais i'w archwilio.

Os oes angen rhif Archeb Brynu ar yr Ymgeisydd er mwyn prosesu taliad, dylech ei roi i PCAC cyn gynted ag y bo'n gyfleus. Gallai darparu unrhyw fanylion o'r fath yn hwyr arwain at oedi yn y broses anfonebu.

## 2. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol

Mae'n bwysig bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn defnyddio'r broses cyn-ymgeisio i ymgyfarwyddo â'r cais a chasglu gwybodaeth a fydd yn helpu i lunio Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR), sylwadau ysgrifenedig ac unrhyw Ddatganiad Tir Cyffredin. Mae mabwysiadu dull rhagweithiol yn ystod y cam hwn yn debygol o leihau'r galw ar adnoddau'r Awdurdod yn ystod y cam archwilio. Mae rhagor o arweiniad ar y mater hwn i'w gael yn Nogfen Canllawiau Gweithdrefnol y DNS.

Fel y gallech fod yn gwybod, mae PCAC yn gyfrifol am gyhoeddi manylion y cais pan fydd wedi'i gyflwyno, ac ysgrifennu at y rhai y gallai'r cais effeithio arnynt.

**O ystyried hyn, byddai'n hynod ddefnyddiol pe gallech ddarparu rhestr o bobl y byddech wedi'u hysbysu, pe byddai'r cais wedi'i gyflwyno'n uniongyrchol i chi, ar fyrder. Yn benodol:**

- pob cynghorydd sir neu gynghorydd bwrdeistref sirol sy'n cynrychioli ward etholiadol y lleolir ynddi dir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef;

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

- pob cyngor cymuned y lleolir yn ei ardal dir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef;
- eiddo cyfagos; ac
- unrhyw unigolion perthnasol eraill a chyrff arbenigol fel y gwelwch yn briodol.

**3. Pob parti**

Os oes gan unrhyw barti gwestiynau'n ymwneud â'r llythyr hwn, neu'r broses DNS ei hun, mae pob croeso i chi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad post ar frig yr hysbysiad hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

*C Sweet*

Christopher Sweet
Rheolwr Cydsynio Seilwaith

**** English text begins on the next page****

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

**Town and Country Planning Act 1990 (as amended) ('the 1990 Act')**
**The Developments of National Significance (Wales) Regulations 2016 (as amended) ('the DNS Regulations')**
**The Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016 (as amended) ('the DNS Procedure Order')**

**Application by:** CENIN Renewables Ltd
**Site address:** Land at Cil-Lonydd Farm, to the east of Pantside and south of Hafodyrynys.

Notice of a proposed application for a Development of National Significance (DNS) has been submitted to Planning and Environment Decisions Wales (PEDW).

Having assessed the submitted documents, I can confirm that:

− the proposal falls within the criteria to be considered as a DNS application; − the documents required by the above Regulations have been provided; and
− the relevant fee has been paid in full.

This letter should therefore be treated as **official notice of acceptance of the notification, under Article 6 of the 2016 DNS Procedure Order.**

This notice of acceptance is only valid for 12 months from the date of this letter; if the application is not formally submitted by that date a fresh notification of proposed development in accordance with Article 5 of the 2016 DNS Procedure Order must be made.

All parties should read the following carefully to ensure they understand the process and note any relevant deadlines.

## 1. <u>The Applicant</u>

The Applicant is now required to carry out publicity before the application is formally submitted. In accordance with Article 8 of the 2016 DNS Procedure Order, the Applicant must now publicise the proposed application by—

*(a)* *giving requisite notice -*
*(i)* *by site display in at least one place on or near the land to which the proposed application relates for not less than 42 days;*
*(ii)* *in writing to any owner or occupier of any land adjoining the land to which the proposed application relates; and*
*(iii)* *by publication of the notice in a newspaper circulating in the locality in which the land to which the proposed application relates is situated; and*
*(b)* *publishing the following information on a website maintained by the applicant, for not less than 42 days beginning with each day on which each of the notices referred to in subparagraph (a) or article 9(2) are given –*

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

*(i) the draft application form published by the Welsh Ministers under article 12(1)(a) (or a form substantially to the like effect), including the particulars specified in or referred to in the form;*
*(ii) a plan which identifies the land to which the proposed application relates;*
*(iii) any other plans, drawings and information necessary to describe the development which is the subject of the proposed application;*
*(iv) a copy of the notice required by article 6 which has not lapsed under paragraph (3) of that article;*
*(v) the design and access statement required by article 14;*
*(vi) subject to article 12(3), the particulars or evidence required by the Welsh Ministers under section 62(3) of the 1990 Act (applications for planning permission);*
*(vii) where applicable, a statement referred to as the environmental statement for the proposed development; and*
*(viii) a written statement about any secondary consent connected with the proposed application in respect of which the applicant considers a decision on that consent is to be made or should be made by the Welsh Ministers, together with the draft application form and documents associated with such consents.*

The Applicant is also required to carry out consultation in line with Article 9 of the 2016 DNS Procedure Order:

*(1) The following persons or descriptions of persons are specified for the purposes of section 61Z(4) of the 1990 Act –*
*(a) any community consultee;*
*(b) any specialist consultee; and*
*(c) any relevant person.*
*(2) Where an applicant is required to consult a community consultee or a relevant person, the applicant must give the community consultee or the relevant person requisite notice in writing of the proposed application.*
*(3) Where an applicant is required to consult a specialist consultee, the applicant must give the specialist consultee requisite notice in writing of the proposed application and enclose each of the documents referred to in article 8(1)(b) or provide a link to a website on which those documents can be found.*
*(4) The applicant must have complied with paragraphs (2) and (3) and have given the specialist consultee time to respond in accordance with article 10(1) before an application is submitted.*

The Applicant is required to submit a pre-application consultation report as part of the application submission in accordance with Article 11 of the DNS Procedure Order. PEDW must be satisfied that the requirements of the 2016 DNS Procedure Order have been met and that responses have helped inform the final scheme, before an application can be accepted for examination.

If the Applicant requires a Purchase Order number to be quoted for payment to be processed, please provide this to PEDW at your earliest convenience. Late provision of any such details could lead to delays in the invoicing process.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

## 2. The Local Planning Authority

It is important that the Local Planning Authority (LPA) uses the pre-application process to inform itself about the application and gather information that will assist in the production of a Local Impact Report (LIR), written representations, and any Statement of Common Ground (SoCG). Adopting a proactive approach at this stage is likely to reduce the demand on the Authority's resources during the examination stage.  Further guidance on this matter can be found in the DNS Procedural Guidance document.

As you may be aware, it is PEDW's responsibility to publish details of the application when it has been submitted, and to write to those who may be affected by it.

**In view of this it would be extremely helpful if you were able to provide a list of people you would have notified, had the application been made directly to you, as a matter of urgency. Specifically:**

- each county or county borough councillor representing an electoral ward in which the land to which the proposed application relates is situated;
- each community council in whose area the land to which the proposed application relates is situated;
- neighbouring properties; and
- any other relevant persons and specialist bodies that you see fit.

## 3. All parties

If any party has any queries in relation to this letter, or the DNS process itself, please do not hesitate to contact me, using the email address or postal address in the header of this notice.

Yours sincerely,

*C Sweet*

Christopher Sweet
Infrastructure Consenting Manager

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.